



# Datganiad Ystadegol

## Ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir, Ebrill 2018 (amcangyfrifon misol)

### Pa ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn?


Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r amcangyfrifon amodol ar gyfer Ebrill 2018. Maen nhw'n rhoi cipolwg cryno ar y trafodiadau treth a ddaeth i law erbyn diwedd 10 Mai 2018.

### Ystadegau allweddol o'r datganiad hwn

Ar ddiwedd 10 Mai 2018, roedd:

- 3,940 o drafodiadau hysbysadwy wedi'u hadrodd ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir, gan ddod i rym yn Ebrill 2018, gyda chyfanswm o £12.0 miliwn o dreth yn ddyledus;
- 2,640 o drafodiadau preswyl ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ar y brif gyfradd, gyda 920 o drafodiadau'r Dreth ar y gyfradd uwch, sy'n golygu cyfanswm o £8.6 miliwn o dreth yn ddyledus o'u cyfuno;
- 380 o drafodiadau amhreswyl a chymysg (sef eiddo sy'n amhreswyl ac yn breswyl o ran natur) ar gyfer y Dreth, gan arwain at £3.4 miliwn o dreth yn ddyledus; a
- 1,475 o sefydliadau wedi cofrestru ar gyfer cyflwyno'r Dreth ar-lein (ar hyn o bryd gyda chyfanswm o 3,554 o ddefnyddwyr ar-lein wedi'u)

### Siart 1: Nifer trafodiadau hysbysadwy'r Dreth Trafodiadau Tir a adroddwyd a'r dreth sy'n ddyledus (£miliwn) ar y



17 Mai 2018

ACC 02/18

### Beth sydd yn y datganiad hwn?

Y datganiad hwn yw'r cyntaf o gyfres fisol 2018/19 o ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir.

Mae'n cynnwys ystadegau cryno ar y ffurflenni a ddaeth i law am Ebrill 2018, a diweddariad i ystadegau cofrestru'r Dreth Trafodiadau Tir a gyhoeddwyd ar 18 Ebrill 2018.

[Mae'r datganiad blaenorol yn y gyfres hon](#)

[ar gael yma](#). Mae'r diweddariad nesaf i fod i gael ei gyhoeddi ar 19 Mehefin 2018.

Mae'r datganiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

### Cysylltwch â ni

Craiger Solomons

03000 254 723

[data@wra.gov.wales](mailto:data@wra.gov.wales)

## **Pam mae'r gwerthoedd hyn yn rhai amodol (p)?**

Mae'r data sydd yn y datganiad hwn yn cael eu hystyried yn amodol gan fod yr amcangyfrifon yn debygol o gael eu diwygio yn y dyfodol, ar ôl i ragor o ddata gael ei gasglu.

- Wrth lenwi ffurflen y Dreth Trafodiadau Tir, mae'r sefydliad sy'n talu'r swm yn cael 30 diwrnod ar ôl y 'dyddiad dod i rym' i gyflwyno a thalu'r swm. Y dyddiad dod i rym yw'r adeg pryd y mae'n rhaid talu'r dreth, fel arfer pan mae trafodiad yn cael ei gwblhau ar eiddo. Felly, mae trafodiadau ychwanegol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn debygol o gael eu cyflwyno yn ystod gweddill mis Mai.
- Yn ôl yr arwyddion cynnar, mae hanner y trafodiadau hysbysadwy a adroddir yn cael eu hadrodd cyn pen 5 diwrnod, ond mae 15 y cant o ffurflenni'r dreth yn cymryd mwy nag 20 diwrnod i gael eu hadrodd i ACC.
- Gallai gwaith ychwanegol i lanhau data a dilysu ganfod gwallau mewn ffurflenni treth a gyflwynwyd. Cyfyngedig fu'r gwaith dilysu ar y data hyd yma, a byddwn ni'n parhau i wella'r amcangyfrifon wrth i ni ddysgu mwy am y data.

## Beth yw strwythur y datganiad hwn?

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys 4 tabl a fydd yn cael eu cyhoeddi bob mis.

**Tabl 1:** Nifer y trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd, y dreth sy'n ddyledus ar y trafodiadau hynny a'r gwerth a briodolwyd i'r eiddo sy'n agored i'r dreth, yn ôl dyddiad dod i rym

*Wedi'u rhannu'n a-c i'w cyflwyno yn y datganiad hwn.*

**Tabl 2:** Nifer y trafodiadau yn ôl math o drafodiad

**Tabl 3:** Nifer y trafodiadau preswyl a'r dreth sy'n ddyledus ar yr eiddo hynny, yn ôl band treth breswyl (math o drafodiad sy'n gysylltiedig â thrawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth yn unig)

*Wedi'u rhannu'n a&b i'w cyflwyno yn y datganiad hwn.*

**Tabl 4:** Nifer y trafodiadau preswyl a'r dreth sy'n ddyledus ar yr eiddo hynny, yn ôl band treth amhreswyl (math o drafodiad sy'n gysylltiedig â thrawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth yn unig)

*Wedi'u rhannu'n a&b i'w cyflwyno yn y datganiad hwn.*

## **Sut bydd y data'n cael ei gyhoeddi yn y dyfodol?**

Ar 19 Mehefin, byddwn ni'n cyhoeddi datganiad ystadegol pellach yn cynnwys data Ebrill 2018 wedi'i ddiweddarau, ynghyd â'n hamcangyfrifon cyntaf ar gyfer Mai 2018. Bydd diwyg yr adroddiad yn debyg i hwn.

Yna, bydd data misol yn y dyfodol yn cael ei ryddhau fel datganiadau 'data yn unig', heb unrhyw sylwebaeth ategol. Fodd bynnag, rydyn ni'n datblygu ystadegau chwarterol a blynyddol a fydd yn cynnwys sylwebaeth a manylion ychwanegol yn esbonio'r amcangyfrifon. Bydd amseriad y datganiadau'n cael ei ail-werthuso pan fyddwn ni'n deall yn well pa mor sylweddol fydd y diwygiadau. Byddwn ni'n ystyried a yw'r cyfnod-(10 diwrnod ar ôl diwedd y mis i'r datganiad hwn) yn ddigon o amser i osgoi diwygiadau mawr.

Nod y dull hwn yw cefnogi'r gwaith o gyhoeddi ystadegau ochr yn ochr â datblygu ein dulliau rheoli data a systemau ar gyfer cynhyrchu ystadegau. Os ydych chi'n dymuno rhoi sylwadau ar y cydbwysedd rhwng prydlondeb a lefelau diwygio'r amcangyfrifon hyn, defnyddiwch y manylion cyswllt sydd ar y dudalen flaen. Cyhoeddir pryd fydd dyddiad y datganiad chwarterol cyntaf ar ôl i ni gael mwy o wybodaeth am y mater hwn.

## Tablau data sydd yn y datganiad hwn

**Tabl 1a: Nifer y trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd, yn ôl dyddiad dod i rym**

Dyddiad dod i rym (mis)	Trafodiadau (nifer)			Cyfanswm nifer y trafodiadau (a)
	Preswyl		Amhreswyl (b)	
	Preswyl	cyfraddau uwch		
Ebrill 18 (p)	2,640	920	380	3,940

- (a) Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf. Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.
- (b) Mae'r categori 'Eiddo amhreswyl' yn cynnwys eiddo amhreswyl ac eiddo cymysg, sef rhai sy'n breswyl ac yn amhreswyl.

Ar 10 Mai, roedd 3,940 o drafodiadau hysbysadwy wedi cael eu hadrodd erbyn Ebrill 2018.

Trafodiadau preswyl oedd y rhan fwyaf o'r rheini, sef dwy ran o dair o'r holl drafodiadau.

**Tabl 1b: Treth yn ddyledus ar drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd, yn ôl dyddiad dod i rym**

Dyddiad dod i rym (mis)	Treth yn ddyledus (£ miliwn)					Cyfanswm y dreth ddyledus (a)
	Eiddo preswyl yn agored i'r brif gyfradd	Eiddo preswyl yn agored i'r brif gyfradd			Amhreswyl (b)	
		Refeniw o'r brif gyfradd	Refeniw ychwanegol o'r brif gyfradd	Cyfanswm cyfradd uwch (a)		
Ebrill 18 (p)	3.4	1.0	4.2	5.2	3.4	12.0

- (a) Mae'r dreth yn y tabl hwn wedi cael ei thalgrynnu i'r £0.1 filiwn agosaf. Mae'r cyfansymiau wedi'u cyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.
- (b) Mae'r categori 'Eiddo amhreswyl' yn cynnwys eiddo amhreswyl ac eiddo cymysg, sef rhai sy'n breswyl ac yn amhreswyl.

Mae swm y dreth yn cael ei chyfrifo ar sail y trafodiad hysbysadwy a adroddwyd ac a gyflwynwyd.

Erbyn diwedd 10 Mai, roedd mymryn dros £12 miliwn yn ddyledus ar gyfer trafodiadau'r dreth yn ymwneud ag Ebrill 2018.

**Tabl 1c: Gwerth a briodolir i eiddo sy'n agored i Dreth Trafodiadau Tir, yn ôl dyddiad dod i rym**

Dyddiad dod i rym (mis)	Gwerth yr eiddo a drethwyd (£ miliwn)			Cyfanswm gwerth yr eiddo a drethwyd (a)
	Preswyl	Eiddo preswyl cyfraddau uwch	Amhreswyl (b)	

- (a) Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £1 filiwn agosaf. Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.
- (b) Mae'r categori 'Eiddo amhreswyl' yn cynnwys eiddo amhreswyl ac eiddo cymysg, sef rhai sy'n breswyl ac yn amhreswyl.

Er mwyn gwerthuso swm y dreth i'w thalu, mae pris prynu'r trafodiad (a elwir hefyd yn gydnabyddiaeth) yn cael ei gasglu fel arfer. Ar gyfer trawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth, mae hyn yn seiliedig ar werth yr eiddo. Mae'r gydnabyddiaeth yn digwydd ar ffurf premiwm i lesddaliadau preswyl, a'r pris prynu yw hyn fel arfer. Fodd bynnag, i lesoedd amhreswyl a chymysg, y swm hwn yw'r premiwm i gaffael y les.

Felly, mae tabl 1c yn cynnwys cymysgedd o gysyniadau ac ni ellir cyfeirio ato fel prisiad gwir neu bris prynu'r eiddo; yn hytrach dylen ni ei ystyried fel y gwerth a briodolir i'r eiddo sy'n agored i'r Dreth Trafodiadau Tir.

Mae tablau 2-4 isod yn canolbwyntio ymhellach ar drawsgludo a throsglwyddo trafodiadau perchnogaeth lle mae'r gwerth a briodolir i'r eiddo yn cyfateb fwy i'r pris prynu.

**Tabl 2: Nifer y trafodiadau yn ôl math o drafodiad**

Dyddiad dod i rym (mis)	Trawsgludo / Trosglwyddo perchnogaeth (b)		Rhoi les newydd	Ailddyrrannu les	Cyfanswm (a)
	Cyfanswm Gwerth		Nifer	Nifer	Nifer
	Nifer	(£ miliwn)			
Ebrill 18 (p)	3,620	700	140	180	3,940

- (a) Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £1 filiwn agosaf. Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.
- (b) Mae trawsgludo / throsglwyddo perchnogaeth yn cynnwys y rhai sydd yn y categori 'Arall'.

Trawsgludo neu drosglwyddo perchnogaeth oedd y rhan fwyaf o'r trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd yn Ebrill 2018 (92 y cant o'r holl drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd). Roedd prisiad yr eiddo sy'n gysylltiedig â thrawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth yn agos at £700 miliwn.

Mae'r dadansoddiad sydd yn nhablau 3 a 4 yn seiliedig ar drawsgludo neu drosglwyddo yn unig. Rydyn ni'n ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys data ar lesioedd yn y datganiad hwn yn y dyfodol.

**Tabl 3a: Nifer y trafodiadau preswyl yn ôl band treth preswyl a dyddiad dod i rym (ar gyfer trawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth yn unig)**

Dyddiad dod i rym (mis)	Trafodiadau yn ôl band treth breswyl (nifer)						Cyfanswm (a)
	Hyd at a gan gynnwys	£180,001 - £250,000	£250,001 - 400,000	£400,001 - £750,000	£750,001 - £1.5m	Dros £1.5m	
	£180,000	£250,000	400,000	£750,000	£1.5m	£1.5m	
Ebrill 18 (p)	2,220	620	400	100	*	0	3,330

(a) Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 agosaf. Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

\* yw gwerth sydd heb fod yn ddigon mawr i'w gyflwyno ac sydd wedi cael ei atal.

Bu 3,330 o drafodiadau preswyl hysbysadwy a adroddwyd, ac roedd dwy ran o dair o'r rheini o fewn y band treth cyntaf (gyda phris prynu yn llai na £180,000). Mae hyn yn 85 y cant o drafodiadau'r Dreth Trafodiadau Tir o'u cyfuno â'r ail fand.

**Tabl 3b: Treth sy'n ddyledus ar drafodiadau preswyl yn ôl band treth breswyl (ar gyfer trawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth yn unig)**

Dyddiad dod i rym (mis)	Treth yn ddyledus yn ôl bandiau treth amhreswyl (£ miliynau)						Cyfanswm (a)
	Hyd at a gan gynnwys	£180,001 - £250,000	£250,001 - 400,000	£400,001 - £750,000	£750,001 - £1.5m	Dros £1.5m	
	£180,000	£250,000	400,000	£750,000	£1.5m	£1.5m	
Ebrill 18 (p)	1.9	1.4	2.9	1.9	*	0.0	8.2

(a) Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £0.1 filiwn agosaf. Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

\* yw gwerth a ataliwyd gan ei fod yn seiliedig ar nifer fach iawn o drafodiadau (gweler tabl 3a).

Mae cyfanswm o £8.2 miliwn o Dreth Trafodiadau Tir yn ddyledus gan y 3,330 o drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd ar gyfer trawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth.

**Tabl 4a: Nifer y trafodiadau amhreswyl yn ôl band treth amhreswyl (ar gyfer trawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth yn unig)**

Dyddiad dod i rym (mis)	Trafodiadau yn ôl band treth breswyl (nifer)				Cyfanswm (a)
	Hyd a gan gynnwys	£150,001 - £250,000	£250,001 - £1m	Mwy nag £1m	
	£150,000				
Ebrill 18 (p)	140	50	70	10	270

(a) Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 agosaf. Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

Yn Ebrill 2018, bu 270 o drafodiadau eiddo amhreswyl neu gymysg hysbysadwy a adroddwyd, ac roedd tua eu hanner yn llai na £150,000.

**Tabl 4b: Treth yn ddyledus ar drafodiadau amhreswyl yn ôl band treth amhreswyl (ar gyfer trawsgludo a throsglwyddo perchnogaeth yn unig)**

Dyddiad dod i rym (mis)	Treth yn ddyledus yn ôl bandiau treth amhreswyl £ mewn miliynau)				Cyfanswm (a)
	Hyd at a gan gynnwys	£150,001 - £250,000	£250,001 - £1m	Dros £1.5m	
	£150,000				
Ebrill 18 (p)	0	~	0.8	1.5	2.3

(a) Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £0.1 filiwn agosaf. Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

~ Yn werth sy'n talgrynnu i 0, ond sydd heb fod yn 0.

Cyfrifiwyd £2.3 miliwn o dreth ar gyfer yr eiddo amhreswyl neu gymysg hyn, gyda dwy ran o dair ohonynt o fewn y band treth prisio uchaf.



## Adran ansawdd allweddol

### Gwerth

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu sefydlu er mwyn diwallu gofyniad y defnyddiwr ar gyfer data ar weithredu'r Dreth Trafodiadau Tir, ar ôl sefydlu ACC. [Mae rhagor o wybodaeth am y Dreth Trafodiadau Tir ar gael yma.](#)

Mae ystadegau am y trethi cyfatebol yn Lloegr a'r Alban yn cael eu cyhoeddi gan Gyllid a Thollau EM a Revenue Scotland.

- [Mae modd gweld Ystadegau Treth Dir y Dreth Stamp \(gan gynnwys ystadegau blaenorol yng Nghymru\) yma.](#)
- [Mae modd gweld ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir a Busnes ar gyfer yr Alban yma.](#)

Bydd dogfennau'n amlinellu cydlyniaeth yr ystadegau hyn yn cael eu datblygu gyda llunwyr ystadegau yn y dyfodol.

### Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cynhyrchu yn unol â Chod Ymarfer Ystadegau.

Bydd ein polisi interim ar allbynnau ystadegol yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir, a bydd yn amlinellu'r canlynol:

- y safonau proffesiynol a ddilynwyd wrth greu'r ystadegau hyn;
- sut mae Swyddog Arweiniol Ystadegau ACC yn rheoli cynnwys ac amseru'r allbynnau'n annibynnol;
- sut rydyn ni'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr am allbynnau sydd ar y gweill; a
- bydd staff sy'n ymwneud â chynhyrchu ystadegau'n mynd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus yn unol â fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil a fframwaith cymwyseddau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Bydd rhagor o ddogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi gyda'r datganiadau ystadegol sydd ar y gweill a byddant yn amlinellu:

- sut byddwn yn ymwneud â defnyddwyr; a
- sut caiff data ei gasglu, ei storio a'i reoli.

## Asesu ansawdd y data

Rydyn ni'n dal wrthi'n asesu ansawdd y data wrth i ragor o drafodiadau gael eu prosesu.

Rydyn ni wedi asesu'r budd a'r pryderon posibl o ran ansawdd yn unol â chanllawiau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar ddefnyddio data gweinyddol. Ar ôl gweithio gyda'r data ymhellach, rydyn ni wedi gwerthuso lefel y risg o bryderon ynghylch ansawdd. Y tabl diweddaedig uchod yw ein hasesiad cyfredol.

Ffynhonnell data	Proffil budd y cyhoedd	Lefel y risg o bryderon ynghylch ansawdd	Lefel yr wybodaeth sicrwydd a ddatblygir
Data cofrestru'r Dreth Trafodiadau Tir	Isel	Isel	A1 – sicrwydd sylfaenol
Ffurflenni treth y Dreth Trafodiadau Tir	Canolig	Isel	A2 – sicrwydd uwch

Wrth baratoi'r datganiad hwn, rydyn ni wedi canfod nifer fach o wallau, ac rydyn ni wedi nodi camau priodol ar sail effaith y gwallau hyn. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at newid yn y ffurflen dreth; ac mae'r achos wedi cael ei drosglwyddo i dîm gweithredol ACC i'w ddatrys. Pan mae ffurflen dreth yn cael ei newid gan dîm gweithredol ACC, cysylltir â'r sefydliad sy'n llenwi'r ffurflen i gadarnhau'r newid.

Wrth nodi'r gwallau, rydyn ni hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr mewnol i ganfod opsiynau ar gyfer leihau'r gwallau hyn ar adeg casglu ffurflenni yn y dyfodol, a bydd hynny'n arwain yn anuniongyrchol ar ansawdd gwell i ddata.

Rhoddir enghreifftiau isod o faterion ansawdd rydyn ni wedi'u canfod, a'n hymateb hyd yma.

### Enghraifft 1

Rydyn ni wedi canfod nifer o drafodiadau lle mae ACC wedi cael ei hysbysu, ond nad ydynt uwchben y trothwy angenrheidiol ar gyfer hysbysu ACC (sef y pris prynu yn fwy na £40,000). Nid ydym wedi eithrio'r rhain gan fod y nifer yn fach ac nad oes treth yn ddyledus ar y trafodiadau hyn. Byddwn ni'n parhau i fonitro hyn yn y dyfodol.

## Enghraifft 2:

Drwy asesu'r dreth sy'n ddyledus o gymharu â'r data a gyflwynwyd am bob trafodiad, rydyn ni wedi gallu canfod rhai gwallau yn y data. Mae hyn wedi arwain at rai cywiriadau i'r trafodiadau, ar y cyd â'r asiantwyr sydd wedi'u cyflwyno.

Un enghraifft yw adeg pryd rydyn ni wedi gwirio a oedd yr opsiwn gorau ar gyfer y math o drafodiad wedi cael ei ddewis wrth lenwi.

Gall trafodiad fod yn: breswyl; amhreswyl; neu'n gymysgedd o'r ddau. Hefyd, gall cyfradd uwch fod yn berthnasol i eiddo preswyl gan ddibynnu ar rai ffactorau. [Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.](#)

Drwy ddadansoddi'r dreth sy'n ddyledus, a data atodol, rydyn ni wedi gallu canfod achosion pryd mae'r math anghywir o drafodiad wedi cael ei ddewis; ac wedi cywiro hynny. Cyflwynir y data yn ôl math o drafodiad yn Nhabl 2.

## Pam rydyn ni wedi gwneud hyn?

Os yw'r prynwr, cyn pen 3 blynedd ar ôl trafodiad ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfraddau uwch, yn ei drin fel ei unig brif breswylfa, gallai fod yn gymwys i gael ad-daliad o'r gyfradd uwch ychwanegol o'r Dreth Trafodiadau Tir. Felly, mae'n bwysig bod yn gallu

## Adborth ac ymholiadau

Rydyn ni'n croesawu adborth a sylwadau i ddatblygu'r datganiadau hyn a datganiadau yn y dyfodol. Defnyddiwch y manylion isod i gysylltu â ni.

Y Cyfryngau a'r E-bost: [news@wra.gov.wales](mailto:news@wra.gov.wales)

Wasg

Defnyddwyr E-bost: [data@wra.gov.wales](mailto:data@wra.gov.wales)

eraill: Ffôn: 03000 254 723

## Diweddariad nesaf

19 Mehefin 2018

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.